

**CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON.**

**WYTHNOS YN DIWEDDU: 27.04.18**

**CLWB JIWDO – JUDO CLUB**

Dechreuodd hwn fore Mawrth yr wythnos hon, a bu'n hynod o boblogaid fel bob amser. Mwynhaodd y rhai ddaeth ynghyd eu hunain yn fawr. Bydd y Clwb yn parhau o 8-8.45 a.m. bob bore Mawrth hyd at Fai 22ain.

*This commenced on Tuesday morning, and it was, as always, extremely popular. All those who came along, thoroughly enjoyed the activity. The Club will continue from 8-8.45 a.m. every Tuesday morning up to May 22<sup>nd</sup>.*

**CYNGERDD BUDDUGWYR YR URDD WINNERS CONCERT.**

Bu hwn yn eithriadol o lwyddiannus nos Fawrth gyda'r rhai fydd yn cynrychioli'r Rhanbarth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd o Ysgolion Glanrafon a Maes Garmon ac Adran Yr Wyddgrug yn cymryd rhan. Cafwyd gwledd o berfformiadau a dymunir y gorau i bawb a fydd yn cynrychioli Cylch a'r Rhanbarth yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar faes Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd ddiwedd mis Mai. Fel canlyniad i'r digwyddiad, cyflwynwyd £213 i'r ysgol, sef traean o elw'r noson.

*This was an extremely successful event on Tuesday evening, with those from Ysgol Glanrafon and Maes Garmon and the Mold Adran who will be representing the Region at the Urdd National Eisteddfod, taking part. A feast of items were enjoyed and we wish all the best to those representing the Area and Region at the National Eisteddfod on the Royal Welsh showground in Builth Wells at the end of May. As a result of the event, £213 was presented to the school, which was a third of the profit.*

**CYSTADLAETHAU CELF A CHREFFT YR URDD ARTS AND CRAFTS COMPETITIONS.**

Fe'ch hysbyswyd o'r rhain yn y Cylchlythyr diwethaf, ac rwyf yn awr mewn sefyllfa i roi crynodeb o'r canlyniadau i chi. Cyflwynwyd y tystysgrifau i'r enillwyr i gyd yn y gwasanaeth ysgol gyfan y bore 'ma. Yng nghystadlaethau'r Cylch, enillodd chwe disgybl y drydedd wobwr, deg disgybl yr ail wobwr a thri ar ddeg o ddisgyblion y wobwr gyntaf. Ar lefel Ranbarthol wedyn, daeth pump trydedd gwobr i ran yr ysgol, pedair ail wobwr a saith gwobr gyntaf. Bydd y saith eitem hynny yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Y saith hynny fydd Nia Jones, Mari Williams (2 eitem), Mari Edwards, Mabli Grug, Harri Knight ac Ella McHugh. Llongyfarchiadau calonnog i bawb enillodd wobrau (sy'n ormod i'w rhestru) a phob dymuniad da i'r eitemau hynny fydd yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol.

Diolchir i chi fel rhieni, am eich cefnogaeth i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chynrychioli mor deilwng yn y cystadlaethau Celf a Chrefft.

*These were mentioned in the last Bulletin, and I am now in a position to give you a summary of the results. All the certificates were presented to the winning pupils in this morning's whole school service. In the District round, six pupils won third prizes, ten pupils gained second prizes and thirteen pupils came first. At Regional level, five third prizes were won, four second prizes and seven first prizes were gained. Those seven items will go forward to compete at the National Eisteddfod. The first prize winners are Nia Jones, Mari Williams (2 items), Mari Edwards, Mabli Grug, Harri Knight and Ella McHugh. Many congratulations to all those who won prizes (too many to list) and every good wish to those items which will go forward to the final round.*

*You, as parents, are thanked for your support in ensuring that the school was so very well represented in the Arts and Crafts competitions.*

### **TWRNAMENT PÊL RUYD SIR Y FFLINT – FLINTSHIRE NETBALL TOURNAMENT.**

Aeth dau dîm i gynrychioli'r ysgol yn nhwrnament pêl rwyd ysgolion cynradd Sir y Fflint ddydd Mercher. Chwaraeodd pawb yn arbennig o dda, a llwyddodd un tîm i fynd ymlaen i'r rownd derfynol. Cafwyd gêm derfynol agos iawn a dim ond o drwch blewyn y collodd ein tîm y gêm. Llongyfarchiadau calonnog i'r rhai aeth i gynrychioli'r ysgol mor deilwng.

*Two teams went to represent the school at the Flintshire Primary schools tournament on Wednesday. Everyone played extremely well, and one team won its way through to the final. In a very close final game the school's team was narrowly defeated. Many congratulations to those who represented the school in such a commendable way*

### **CYSTADLEUAETH BÊL DROED CWPAN RON BISHOP CUP FOOTBALL COMPETITION.**

Ddoe, aeth tîm i gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth bêl droed Cwpan Ron Bishop i ddisgyblion Blwyddyn 5 ac iau. Gwnaeth y disgyblion hyn eu gwaith yn arbennig o dda, gan weithio'n effeithiol iawn fel tîm, a diolchir iddynt hwythau am gynrychioli'r ysgol mor deilwng.

*A team went to represent the school in the Ron Bishop football competition for Years 5 and younger pupils yesterday. These pupils did extremely well and played effectively as a team, and the members are thanked for representing the school in such a commendable way.*

### **READ TO FEED**

Fe'ch hysbysir bod y casgliad hwn wedi cau erbyn hyn. Mae'r ymateb wedi bod yn wych a phleser yw rhoi gwybod i chi bod £1,180 wedi'i gasglu at yr achos teilwng hwn. Diolch o galon i chi am eich cefnogaeth hael.

*You are informed that this appeal has by now closed. The response has been wonderful and it is a pleasure to inform you that the sum of £1,180 has been raised towards this worthy cause.*

### **CLWB AR ÔL YSGOL – AFTER SCHOOL CLUB.**

Gofynnir yn garedig i bawb sy'n defnyddio'r Clwb ar ôl ysgol neu Ben Bore (cyn 8.20 a.m.) i sicrhau eu bod yn talu am gael ei ddefnyddio yn gyson a rheolaidd er mwyn peidio bod mewn dyled. Cedwir yr hawl i rwystro rhieni rhag defnyddio'r adnawdd os nad oes taliad wedi'i wneud, hyd nes y bydd y cyfan wedi'i dalu. Mae llyfrau'r Clwb yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a rhaid sicrhau fod popeth mewn trefn a phob dyled wedi'i thalu'n llawn.

*Everyone who uses the After School and Morning Club (before 8.20 a.m.) is asked to ensure that they pay the fees regularly and on time so as not to accumulate a debt. If payment is not made on time, we have the right to refuse families to use the facility until full payment has been made. The accounts are regularly audited and it must be ensured that every debt has been paid and all payments are up to date.*

### **CŴN – DOGS.**

Am resymau iechyd a diogelwch amlwg, gofynnir yn garedig i bawb beidio dod â chŵn anwes ar dir yr ysgol ar unrhyw amser os gwelwch yn dda. Yr unig eithriad i hynny yw cŵn tywys ar gyfer y deillion.

*For obvious health and safety reasons, you are all asked kindly not to bring pet dogs on to the school grounds at any time please. The only exception to this is guide dogs for the blind.*

## **DIOGELWCH - SAFETY**

Am resymau diogelwch hefyd, fe'ch hatgoffir na ddylai neb gerdded ar hyd y ffordd sy'n arwain i'r ysgol na'r maes parcio gan ei bod yn cael ei defnyddio gan geir a thacsis. Gofynnir i bawb ddefnyddio'r llwybrau yn unig os gwelwch yn dda. A fydddech cystal â throsglwyddo'r neges hon i unrhyw un sy'n dod â'ch plant yn y bore neu'n eu casglu ar ddiwedd y dydd.

*For safety reasons also, you are reminded that no-one should walk on the roadway leading to and from school or the car park as it's used by cars and taxis. Everyone is asked to use the paths only please. Would you kindly ensure that this message is relayed to anyone who brings your children in the morning or collects them at the end of the day please.*

## **DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – NEXT WEEK'S EVENTS.**

- 30.04.18** Gwibdaith Blwyddyn 3 a 4 i Groundworks – *Years 3 and 4 educational trip to Groundworks.*
- 01.05.18** Clwb Jiwdo – *Judo Club – 8-8.45 a.m.*
- 01.05.18** Gwibdaith Blwyddyn 3 a 4 i Groundworks – *Years 3 and 4 educational trip to Groundworks.*
- 02.05.18** Prawf Darllen Cymraeg cenedlaethol – *Welsh national Reading test – a.m.*
- 03.05.18** Prawf Rhifedd Gweithdrefnol – Blwyddyn 3,4,5 a 6 – *Years 3,4,5,and 6 Procedural Numeracy test – a.m.*
- 04.05.18** Prawf Darllen Saesneg cenedlaethol – Blwyddyn 4,5 a 6 – *English national Reading test – Years 4,5 and 6 – a.m.*
- 04.05.18** Prawf Ymresymu Rhifedd cenedlaethol – Blwyddyn 2 – *National Numeracy Reasoning national test – Year 2.*
- 07.05.18** Gŵyl Fai – gwyliau undydd – *May Day Bank holiday – no school.*